OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 3097

## Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 23 Tachwedd 2006.

(2) Mae Rheoliad 3 yn gymwys o ran Cymru ynghylch cwestiwn o beidio â chasglu perthnasol.

(3) Ym mharagraff 2 uchod, ystyr "cwestiwn o beidio â chasglu perthnasol" yw cwestiwn o beidio â chasglu o dan Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997 ac—

(a) sy'n codi ynglŷn â blwyddyn ysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2006; a

(b) nas penderfynwyd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005

**2.** Ar ddiwedd paragraff (3) o reoliad 1 o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005(**1**), mewnosoder "cyhyd ag nad yw'r cwestiwn yn un a gyfeirir at baragraff (3) o reoliad 1 o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006".

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(4) a (6), yn lle "£1,575" ym mhob man y'i gwelir rhodder "£1,625".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, rhodder "£12,470" yn lle "£12,182".

(4) Yn lle'r tabl sy'n dilyn paragraff 2(1) o'r Atodlen honno, rhodder y tabl canlynol—

| *(1) Part of relevant income to which specified percentage applies* | *(2) Only assisted pupil (%)* | *(3) Each of two assisted pupils (%)* | *Each of three assisted pupils (%)* |
|---|---|---|---|
| That part (if any) which exceeds £12,304 but does not exceed £13,380. | 9 | 6.75 | 5.25 |
| That part (if any) which exceeds £13,380 but does not exceed £14,472. | 12 | 9 | 7 |

(**1**) O.S. 2005/2838 (Cy. 202).

(**2**) O.S. 1997/1968. Offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1726, O.S. 1998/1966, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1938 (Cy. 136), O.S. 2001/2680 (Cy. 221), O.S. 2002/1879 (Cy. 188), O.S. 2003/1854 (Cy. 204), O.S. 2004/1812 (Cy. 197) ac O.S. 2005/2838 (Cy. 202).

| *(1) Part of relevant income to which specified percentage applies* | *(2) Only assisted pupil (%)* | *(3) Each of two assisted pupils (%)* | *Each of three assisted pupils (%)* |
|---|---|---|---|
| That part (if any) which exceeds £14,472 but does not exceed £16,637. | 15 | 11.25 | 8.75 |
| That part (if any) which exceeds £16,637 but does not exceed £19,977. | 21 | 15.75 | 12.25 |
| That part (if any) which exceeds £19,977 but does not exceed £24,331. | 24 | 18 | 14 |
| That part (if any) which exceeds £24,331 | 35 | 24.75 | 19.25 |

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*Dafydd Elis Thomas*

21 Tachwedd 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p. 38.